**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0362/25

Delyth Jewell AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant,
Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Gorffennaf 2025

Annwyl Delyth,

Ar ôl ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ddiweddar, rwyf yn falch o allu darparu ymatebion i'r camau gweithredu a godwyd yn ystod y sesiwn ac i gwestiynau pellach na chawsant eu hateb o fewn yr amser penodedig. Mae'r rhain wedi'u hatodi yn Atodiad A.

Mae'r adroddiad chwarterol cyntaf ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol bellach wedi cael ei anfon atoch ac mae hwn yn nodi'r gweithgarwch a wnaed yn ystod y chwarter cyntaf i weithredu'r 15 elfen i'w cyflawni.

Ers i mi ymddangos gerbron y Pwyllgor, bydd Aelodau wedi sylwi bod Llywodraethau Cymru ac Iwerddon wedi llofnodi Datganiad ar y Cyd newydd ac rwy'n falch bod fy swyddogion wedi gallu rhoi sesiwn briffio technegol i'r Pwyllgor ar hyn. Mae hyn yn dilyn briff blaenorol ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol. Rwyf yn hapus iawn i hwyluso'r sesiynau briffio llafar hyn sy'n darparu manylion a gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eich dealltwriaeth a'ch gwaith. Rwyf eisoes wedi cynnig bod fy mhrif swyddogion yn ein rhanbarthau ledled y byd yn cael sesiwn gyda chi i egluro eu rôl a'r gweithgareddau a gyflawnir ar draws ein Rhwydwaith Tramor.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A**

**Camau gweithredu**

***a) Cytunodd y Prif Weinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ewros.***

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 4 Gorffennaf 2025 yn amlinellu sut rydym yn manteisio ar Bencampwriaethau Ewrop y Merched i hyrwyddo Cymru a'i diwylliant yn y Swistir.

***b) Cytunodd y Prif Weinidog i rannu rhestr o ymweliadau/cyfarfodydd â sefydliadau'r UE gan aelodau'r Llywodraeth.***

Ceir rhestr o ymweliadau a chyfarfodydd â sefydliadau'r UE yn Atodiad B.

***c) Cytunodd y Prif Weinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor yn egluro sut y gellir datblygu concordat cysylltiadau rhyngwladol.***

Mae Concordat eisoes mewn grym sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinidogion Cymru yn cydweithio i barchu cysylltiadau rhyngwladol. Mae'n cydnabod mai Llywodraeth y DU a Senedd y DU sy'n parhau i fod yn gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol a chysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU hefyd yn cydnabod y bydd gan y Llywodraethau Datganoledig ddiddordeb mewn llunio polisïau rhyngwladol ac Ewropeaidd mewn perthynas â materion datganoledig, yn enwedig lle gallai fod yn ofynnol iddynt roi camau gweithredu ar waith.

Cyhoeddwyd y Concordat hwn yn 2013 ac mae swyddogion o bob rhan o'r DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ystyried pa bryd y gellid diweddaru'r Concordat. Mae disgwyl y bydd y Concordat, a'r fframwaith ar gyfer ymgysylltu â'r Llywodraethau Datganoledig ar faterion rhyngwladol, yn cael eu hystyried fel eitem ar agenda'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn y dyfodol.

***c) Cytunodd y tystion i ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi pa effaith y mae adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor wedi'i chael ar Lywodraeth Cymru.***

Rydym yn croesawu adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor a'i ymrwymiad parhaus i gefnogi rôl diwylliant mewn cysylltiadau rhyngwladol yng Nghymru. Ynghlwm wrth y llythyr hwn, rwyf wedi cynnwys diweddariad ar ein gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiad (Atodiad C). Ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad, rydym wedi gwahodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i fod yn aelod o'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach i ddarparu cyngor sectoraidd arbenigol, wedi cyhoeddi ein Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant sy'n cydnabod y rôl y mae diwylliant yn ei chwarae yn ein cysylltiadau rhyngwladol, ac wedi cytuno ar Ddatganiad ar y Cyd Cymru-Iwerddon 2030, gyda diwylliant fel thema allweddol.

**Cwestiynau nas Cyrhaeddwyd**

Cyflawni

***1. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, ategodd y Prif Weinidog ymrwymiad a wnaed ar 9 Mehefin mewn gohebiaeth i adolygu 270 o gamau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol dros yr haf a darparu dadansoddiad i'r Pwyllgor yn yr hydref. A allwch roi amserlen fwy penodol ar gyfer pryd y gall y Pwyllgor ddisgwyl y bydd yr adroddiad terfynol yn dod i law?***

Mae hon yn dasg bwysig, nid yn unig o ran adrodd i'r Pwyllgor, ond fel rhan o ddeall effaith y Strategaeth Ryngwladol. I'r perwyl hwnnw, rydym yn bwriadu ysgrifennu at y Pwyllgor gyda dadansoddiad o'r camau gweithredu erbyn diwedd 2025. Mae hyn yn caniatáu digon o amser i ganolbwyntio ar gyflawni gweithgareddau allweddol fel y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol a'r Uwchgynhadledd Fuddsoddi, gan sicrhau hefyd ei fod yn cael ei ddadansoddi i lefel briodol.

<u>Cynllun Cyflawni Rhyngwladol</u>

***2. Yn ystod ein hymchwiliad, gwnaethom sylwi ar y lefel isel o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol. A allwch esbonio ar ba sail y dewiswyd ei 15 nod a sut y cawsant eu datblygu?***

Mae'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn ehangu ar y Strategaeth Ryngwladol gyffredinol gyda'i nodau craidd o godi proffil Cymru, tyfu'r economi a gosod Cymru fel cenedl gyfrifol ar lefel fyd-eang.

O'r herwydd, ni chafwyd ymgynghoriad uniongyrchol ar y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol. Fodd bynnag, mae ein model Tîm Cymru o ddiplomyddiaeth yn golygu ein bod yn ymgysylltu ac yn cynnwys ein partneriaid yn ein gwaith yn rheolaidd. Lluniwyd y Cynllun o'r gwaith ymgysylltu a chyfranogi ystyrlon a rheolaidd hyn, ac roeddwn yn falch o glywed rhywfaint o hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor.

***3. Mae'r Prif Weinidog wedi cynnig darparu adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor hwn ar gyflawni'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol, gan ddechrau'r mis hwn. A allwch gadarnhau a fydd yr adroddiadau'n cael eu strwythuro o amgylch pob un o 15 nod y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol a thri amcan y Strategaeth?***

Bydd yr adroddiad chwarterol yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn y 15 nod ac yn darparu dadansoddiad o'r effaith yn ystod y chwarter. Rwyf yn awyddus i ni ddod o hyd i'r ffordd fwyaf addas o adrodd i chi a byddem yn croesawu eich adborth. Bydd llawer o'r gwaith dros y chwarter cyntaf yn ymwneud â mwy nag un o'r elfennau i'w cyflawni ac mae hyn yn bwysig wrth i ni geisio sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae’r adroddiad chwarterol wedi cael ei gyhoeddi ar wahân.

<u>Y Gyllideb</u>

***4. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu bron £49m i gysylltiadau rhyngwladol a datblygu rhyngwladol yn ystod y Chweched Senedd. Wrth i'r Strategaeth dynnu tua’i therfyn, sut ydych chi'n asesu a ydyw wedi darparu gwerth am arian?***

Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor, mae cenhedloedd, rhanbarthau a dinasoedd ym mhedwar ban y byd yn ceisio ymateb i'r her o fesur effaith gweithgarwch cysylltiadau rhyngwladol, ond mae'n weithgarwch eang iawn.

Lle gallwn fesur, gallwn ddeall yr effaith yn glir. Yn ystod oes y Strategaeth, mae cwmnïau tramor wedi gwneud 215 o fuddsoddiadau sydd wedi creu a diogelu dros 20,000 o swyddi, ac mae busnesau yng Nghymru wedi sicrhau dros £370m o fusnes allforio newydd o ganlyniad uniongyrchol i gymorth allforio Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd wedi rhoi cryn bwyslais ar feithrin cysylltiadau da i greu'r amgylchedd cywir i gydweithio ar draws amrywiaeth o feysydd. Mae hyn yn anodd ei fesur ond byddwn yn dadlau bod ein gwaith helaeth yn Japan i feithrin cysylltiadau da ag amrywiaeth o randdeiliaid ym myd busnes, twristiaeth, diwylliant, chwaraeon ac iaith wedi hwyluso'r amodau cywir ar gyfer Blwyddyn Cymru a Japan sy'n cael effaith fawr.

Yn ystod Cwpan y Byd 2022, cynhaliwyd gweithgareddau ar draws ein rhwydwaith tramor i godi proffil Cymru. Cynhaliwyd digwyddiadau ledled UDA, gan gynnwys digwyddiad busnes yn Washington DC i ddathlu gêm grŵp Cymru yn erbyn UDA. Yn dilyn cyfarfod cychwynnol a gafwyd yng Nghynhadledd y Datblygwyr Gemau yn gynharach yn y flwyddyn, gwahoddwyd cwmni gemau i fynychu'r digwyddiad yn DC lle cafwyd cyfle i sôn mwy am y sgiliau yng Nghymru o ran gemau a thechnoleg ac i barhau â'r sgyrsiau a ddechreuwyd yn San Francisco. Drwy barhau i ymgysylltu â'n tîm yn yr Unol Daleithiau a Chymru Greadigol, cyhoeddodd y cwmni ei fwriad i leoli ei Bencadlys Ewropeaidd yng Nghaerdydd, er nad oeddent hyd yn oed wedi ystyried Cymru cyn iddynt ymgysylltu â Rhwydwaith Tramor Llywodraeth Cymru.  Arweiniodd y buddsoddiad hwn at 50 o swyddi o ansawdd uchel yn y diwydiant gemau ac mae'n dangos sut y gall diplomyddiaeth chwaraeon arwain at ganlyniadau gwirioneddol; fodd bynnag, nid yw bob amser mor hawdd â hyn i fesur y canlyniadau.

Yn ogystal â hynny, buddsoddodd y cwmni technoleg Vishay £51m mewn cyfleuster lled-ddargludyddion cyfansawdd yng Nghasnewydd. Ein tîm yn Washington DC sylwodd ar y prosiect hwn a buont yn gweithio'n galed i feithrin y berthynas â phencadlys y cwmni. Roedd y potensial yn amlwg i'n tîm rhwydwaith tramor yn DC a dyma fwrw ymlaen â'r prosiect gan feithrin perthynas â'r cwmni drwy gydol y prosiect i sicrhau cysylltiad effeithiol â'r llywodraeth. Roedd hyn wedi arwain yn y pen draw at fuddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd a channoedd o swyddi.

Mae'r cyllid ar gyfer gweithgarwch rhyngwladol wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi ein huchelgais i fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Rydym wedi canolbwyntio ar ddangos arweinyddiaeth fyd-eang mewn nifer o feysydd i rannu ein dysgu ond hefyd i wella canlyniadau yma yng Nghymru. Ym maes datblygu cynaliadwy, 10 mlynedd ers sefydlu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae Cymru bellach wedi ysbrydoli ymrwymiad hanesyddol gan y Cenhedloedd Unedig. Y llynedd, llofnododd arweinwyr byd-eang y Datganiad ar Genedlaethau'r Dyfodol yn Efrog Newydd i ddiogelu llesiant ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Yn nes adref, roedd ein cais llwyddiannus i gynnal Hotspot yr Economi Gylchol wedi arwain at 400 o gynadleddwyr yn dod o bob cwr o'r byd i ddysgu o'n llwyddiant trawsnewidiol ym meysydd fel ailgylchu. Yn dilyn hyn, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymweld â Latfia i ddysgu o'u Cynllun Dychwelyd Ernes a sut y gallai hyn weithio yng Nghymru.

Mae llawer o'n gwaith rhyngwladol wedi canolbwyntio ar hwyluso cysylltiadau i wneud gwahaniaeth. Mae'r Rhaglen Taith eisoes wedi dyfarnu cyllid i alluogi dros 15,000 o bobl i ddysgu, i astudio ac i wirfoddoli ledled y byd. Y llynedd, yn ystod blwyddyn Cymru yn India, cafwyd cytundeb gyda Phrif Weinidog Kerala gan arwain at 300 o weithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu recriwtio i GIG Cymru. Fel rhan o'n ffocws ar Gymru a Japan eleni, a Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol y Cenhedloedd Unedig, rydym wedi bod yn datblygu cysylltiadau â chymuned gynhenid Ainu i rannu ein gwaith. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid strategol wedi ymgysylltu i rannu ein gwaith ar Cymraeg 2050 a chynlluniau eraill.

Mae'r gwariant yng Nghymru yn gymharol fach o'i gymharu â lleoedd eraill. Roedd cyllideb Llywodraeth yr Alban ar Gysylltiadau Rhyngwladol a Materion Ewropeaidd yn £26.7m yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn unig ac nid yw hynny hyd yn oed yn cwmpasu ei holl waith rhyngwladol.

***5. Darparodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o ddyraniadau'r gyllideb bresennol ar gyfer gweithgarwch cysylltiadau rhyngwladol ar 9 Mehefin, chwe mis ar ôl cyfnod craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb. A ydych yn fodlon bod digon o amser ar***

***gael yn awr i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n strategol yn y flwyddyn ariannol hon?***

Rwyf yn falch o adrodd ein bod fwy neu lai wedi llwyddo i wario’r holl arian y llynedd. Mae hwn yn gam sylweddol ymlaen ar ôl y tanwariant a welwyd yn ystod blynyddoedd Covid a'r cyfnod adfer ar ôl y pandemig. Mae rhai amrywiadau y tu hwnt i’n rheolaeth sy'n effeithio ar ein gwariant, megis anfonebau gan yr FCDO mewn perthynas â chostau’r Rhwydwaith Tramor a newidiadau staffio. Fodd bynnag, wrth reoli cyllidebau fel hyn ac wrth arddel agwedd Tîm Cymru yn ein gweithgarwch, rwy'n hyderus y byddwn yn gallu adrodd ar wariant llawn, neu’n agos at hynny, eto eleni.

***6. Mae'r dyraniadau'n dilyn strwythur cyllidebau blaenorol. A allwch egluro sut y maent yn cyd-fynd â’r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol?***

Y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol sy’n rhoi ffocws i'n gweithgarwch. Mae hefyd yn arwain parhad y Strategaeth Ryngwladol hyd ddiwedd Tymor y Senedd hon. Mae’n fater o barhau â’n dull gweithredu yn hytrach na’i newid. Felly, i bob pwrpas, mae hyn yn golygu bod y trefniant cyllidebol presennol yn cyd-fynd â'n Cynllun Cyflawni. Rhoddir cyfrif uniongyrchol am rai o gamau gweithredu'r Cynllun Cyflawni, fel Blwyddyn Cymru a Japan, tra bydd llinellau eraill yn y gyllideb, fel y cyllid ar gyfer Partneriaid Strategol, yn cefnogi meysydd ffocws eraill gan gynnwys dull gweithredu Tîm Cymru.

**Atodiad B**

| Gweinidog | Cyfarfod â phwy? | Dyddiad | |
|---|---|---|---|
| Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi | Eddy van Hijum, Gweinidog yr Economi, Ynni ac Arloesi Dwyrain yr Iseldiroedd (Vanguard) | Rhagfyr 2021 - Cyfarfod ar-lein | Ymatebol |
| Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi | Jeannette Baljeu, Gweinidog Rhanbarthol Talaith De-Holand (Vanguard) | Rhagfyr 2021 – Cyfarfod ar-lein | Ymatebol |
| Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi | Cristina Uriarte, Comisiynydd Gwyddoniaeth, Technoleg ac Arloesi, Llywodraeth Gwlad y Basg<br><br>Marian Elorza, Ysgrifennydd Cyffredinol Materion Tramor, Llywodraeth Gwlad y Basg (Vanguard) | Rhagfyr 2021 - Cyfarfod ar-lein | Ymatebol |
| Y Prif Weinidog Mark Drakeford | Evelyn Regner ASE, Is-Lywydd Senedd Ewrop | Mawrth 2022 | Rhagweithiol |
| Y Prif Weinidog Mark Drakeford | Bernd Lange ASE, Cadeirydd Pwyllgor INTA | Mawrth 2022 | Rhagweithiol |
| Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg | Pwyllgor EP CULT - Sesiwn Wybodaeth am Taith | Hydref 2022 | Rhagweithiol |
| Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg | Sean Kelly ASE | Hydref 2022 | Rhagweithiol |
| Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg | Jens Geier ASE | Hydref 2022 | Rhagweithiol |
| Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg | Viktor Negrescu ASE | Hydref 2022 | Rhagweithiol |
| Y Prif Weinidog Mark Drakeford | Younous Omarjee ASE, Cadeirydd Pwyllgor REGI | Mawrth 2023 | Rhagweithiol |
| Y Prif Weinidog Mark Drakeford | Katarina Barley ASE, Is-Lywydd Senedd Ewrop | Mawrth 2023 | Rhagweithiol |
| Y Prif Weinidog Mark Drakeford | Jan Jambon, Gweinidog-Lywydd Fflandrys | Mawrth 2023 | Rhagweithiol |

| **Gweinidog** | **Cyfarfod â phwy?** | **Dyddiad** | |
|---|---|---|---|
| Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi | Jan Olbrycht ASE | Ebrill 2023 | Rhagweithiol |
| Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi | Younous Omarjee ASE, Cadeirydd Pwyllgor REGI | Ebrill 2023 | Rhagweithiol |
| Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi | Pwyllgor REGI, Senedd Ewrop - *Cyfnewid safbwyntiau gyda Mr Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, ar Brexit a chydweithrediad Cymru â'r UE* | Ebrill 2023 | Rhagweithiol |
| Hannah Blythyn, Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol | Agnes Jongerius ASE | Hydref 2023 | Rhagweithiol |
| Hannah Blythyn, Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol | Llywydd EESC | Hydref 2023 | Rhagweithiol |
| Y Prif Weinidog Mark Drakeford | Jan Jambon, Gweinidog-Lywydd Fflandrys | Chwefror 2024 | Rhagweithiol |
| Huw Irranca-Davies, Y Dirprwy Brif Weinidog | Cyfarfod Cynghrair Dan2 | Mehefin 2025 | Ymatebol |
| Huw Irranca-Davies, Y Dirprwy Brif Weinidog | Séamus Boland, Llywydd nesaf EESC | Mehefin 2025 | Rhagweithiol |

**Atodiad C**

**Diweddariad ar weithredu argymhellion adroddiad 'Sioc Ddiwylliannol' y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Gorffennaf 2025**

**Argymhelliad 1**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r argymhelliad a wnaed gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Rhagfyr 2023 (gweler paragraffau 58 a 59 yr adroddiad hwn), ac i ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i annog y DU a'r UE i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Rydym yn parhau i geisio defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i annog Llywodraeth y DU a'r UE i leihau'r anawsterau a wynebir gan weithwyr yn y sector creadigol. Rydym yn croesawu'r bwriad diweddar i ail-ddechrau â llechen o ran y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a chyhoeddi Cytundeb Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a'r UE. Rydym yn croesawu'n arbennig y cyhoeddiad a wnaed gan lywodraethau'r DU a'r UE yn yr uwchgynhadledd ar 19 Mai i sefydlu ymrwymiad ar y cyd i negodi cynllun profiad i bobl ifanc. Bydd cynnig o'r fath yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu mwynhau'r manteision cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol a geir o fyw, gweithio a/neu astudio yng ngwledydd ei gilydd.

**Argymhelliad 2**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa ganllawiau a chymorth y mae'n eu darparu i weithwyr creadigol ar weithio ar draws ffiniau ar ôl Brexit. Dylai'r ymateb gynnwys manylion ynghylch pa wybodaeth sydd ar gael ar ei gwefan, rôl ei swyddfeydd cymorth allforio a thramor, ac unrhyw gyllid a ddarperir i drydydd partïon ar gyfer gwasanaethau cynghori.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Fe wnaethom nodi'r canllawiau a'r cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024.

**Argymhelliad 3**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o effaith Brexit ar y sector diwylliannol yng Nghymru.*

Ymateb: Gwrthod

Diweddariad: Dim diweddariad pellach.

**Argymhelliad 4**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi pa gamau y mae wedi'u cymryd i liniaru effaith Brexit ar y sector, gan gynnwys y goblygiadau ariannol, a pha gamau y bydd yn eu cymryd yn y dyfodol, mewn ymateb i'r adroddiad hwn.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Fe wnaethom nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024.

**Argymhelliad 5**
*Rydym yn annog y DU a'r UE i flaenoriaethu trefniadau newydd ar gyfer gweithwyr creadigol yn yr adolygiad gweithredu arfaethedig o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r bwriad o fwrw ymlaen ag argymhelliad y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar artistiaid teithiol.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Rydym yn croesawu'r bwriad diweddar i ail-ddechrau â llechen o ran y cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ac yn croesawu'n arbennig y cyhoeddiad am ymrwymiad ar y cyd i negodi cynllun profiad i bobl ifanc. Credwn y gallai cynllun o'r fath fod o fudd i artistiaid ifanc, gan mai artistiaid iau, llai sefydledig ar y cyfan sy'n wynebu'r heriau mwyaf wrth deithio gyda chostau uwch, terfynau amser a biwrocratiaeth ar ôl ymadael â'r UE. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen trafodaethau pellach am gefnogi artistiaid teithiol a byddwn yn parhau i godi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 6**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys gwaith creadigol trawsffiniol fel blaenoriaeth mewn strategaeth glir a chydlynol sy'n nodi ei huchelgais ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a Chymru a'r UE.*

Ymateb: Gwrthod

Diweddariad: Dim diweddariad pellach.

**Argymhelliad 7**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi ei barn bresennol ar sut y caiff Cymru ei chynrychioli yn strwythurau llywodraethu'r DU a'r UE mewn ymateb i'r adroddiad hwn.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Fe wnaethom ddarparu safbwynt Llywodraeth Cymru yn ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024.

**Argymhelliad 8**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r materion hyn mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol. Dylai gymryd camau ymarferol, megis awgrymu'r canlynol fel eitemau sefydlog ar yr agenda nes bydd y sefyllfa'n gwella:*

- *gwella'r trefniadau ar ôl Brexit ar gyfer gweithwyr creadigol, gan gynnwys drwy'r adolygiad arfaethedig o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu; a*
- *cysylltiad y DU ag Erasmus+ ac Ewrop Greadigol.*

*Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o leiaf unwaith y tymor ar drafodaethau rhynglywodraethol perthnasol ar y materion penodol hyn am weddill y Chweched Senedd*

Ymateb: Derbyniwyd yn rhannol.

Diweddariad: Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i hyrwyddo'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol, yn fwyaf diweddar yn y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach ar 2 Mehefin.

Croesawn y cyhoeddiad yng Nghytundeb Cyd-ddealltwriaeth y DU a'r UE i weithio tuag at gysylltiad â rhaglen Erasmus ar delerau ariannol llawer gwell i'r DU.

**Argymhelliad 9**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadarnhau pa ddata a thystiolaeth y mae'n eu defnyddio fel sail i'r penderfyniadau yn y maes hwn, gan gynnwys cynnwys artistiaid teithiol fel blaenoriaeth yn yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Fe wnaethom gadarnhau pa ddata a thystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i lywio penderfyniadau yn y maes hwn yn ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024.

**Argymhelliad 10**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ei hasesiad o sut y bydd ei blaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn mynd i'r afael â'r holl elfennau y mae angen iddynt gydweithio er mwyn hwyluso gweithio'n greadigol ar draws ffiniau.*

Ymateb: Gwrthod

Diweddariad: Dim diweddariad pellach.

**Argymhelliad 11**
*Rydym yn cefnogi galwad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am sefydlu grŵp cynghori newydd ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Dylai hyn gynnwys cyrff sy'n cynrychioli'r sector diwylliannol.*

Ymateb: Gwrthod

Diweddariad: Mae Llywodraeth Cymru wedi ail-edrych ar aelodaeth ei Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach ac rydym wedi gwahodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i fod yn aelod o'r grŵp i ddarparu cyngor sectoraidd arbenigol.

**Argymhelliad 12**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y materion a gwmpesir gan yr ymchwiliad hwn ers mis Ionawr 2021, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i hynny.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Fe wnaethom nodi sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y maes hwn yn ein hymateb i argymhellion y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i fod yn aelod o'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach i ddarparu cyngor sectoraidd arbenigol.

**Argymhelliad 13**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgorffori canfyddiadau'r Pwyllgor yn ei strategaethau diwylliant a chysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Ym mis Mai 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant sy'n cydnabod rôl hanfodol diwylliant i alluogi Cymru i greu a meithrin cysylltiadau rhyngwladol ffurfiol ac anffurfiol â rhanbarthau a gwledydd eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei hamcan bod diwylliant yn cael ei gynrychioli a'i

wreiddio yn y ffordd rydym yn hyrwyddo Cymru i'r byd. Roedd Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yn nodi'r uchelgeisiau canlynol:

- Mae gan ddiwylliant broffil uchel yn y ffordd y caiff ein cenedl ei marchnata i ymwelwyr ac yn y ffordd yr ydym yn sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol.
- Codi proffil diwylliant drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

**Argymhelliad 14**
*Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal deialog barhaus gyda Llywodraeth Iwerddon ar y mater hwn fel rhan o'u cydweithrediad parhaus a'u cydweithrediad yn y dyfodol, ac i gwmpasu, lle bo modd, pa gymorth ychwanegol y gellid ei ddarparu ar y cyd tra byddant yn aros am ateb wedi'i arwain gan y DU a'r UE.*

Ymateb: Derbyniwyd

Diweddariad: Ym mis Gorffennaf 2025, lansiodd Prif Weinidog Cymru a Tánaiste Iwerddon y Datganiad ar y Cyd newydd rhwng Iwerddon-Cymru 2030[1]. Mae diwylliant yn thema allweddol yn y Datganiad ac, yn y maes hwn, mae uchelgais i feithrin perthynas waith gref rhwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Culture Ireland. Byddwn yn adeiladu ar y cydweithio â chynghorau celfyddydau Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys drwy'r cynllun mynediad diwylliannol *All In*, rhaglen symudedd Gogledd Ewrop, a'r rhaglen Beyond Border.

[1] Datganiad ar y Cyd Iwerddon-Cymru 2030